# Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**2015 dccc 5**

**RHAN 7**

PWERAU GORFODI CYMWYSTERAU CYMRU

## 42 Adennill costau: apelau

(1) Caiff corff dyfarnu apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn—

(a) penderfyniad o dan adran 41(1) i'w gwneud yn ofynnol i'r corff dalu costau;

(b) penderfyniad o ran swm y costau hynny.

(2) Caniateir i apêl o dan yr adran hon gael ei gwneud ar y sail—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir yn y gyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn afresymol.

(3) Os gwneir apêl o dan yr adran hon, mae'r gofyniad i dalu'r costau wedi ei atal dros dro hyd nes y tynnir yr apêl yn ôl neu hyd nes y penderfynir arni.

(4) O ran apêl o dan yr adran hon caiff y Tribiwnlys—

(a) tynnu'n ôl y gofyniad i dalu'r costau;

(b) cadarnhau'r gofyniad hwnnw;

(c) amrywio'r gofyniad hwnnw;

(d) dychwelyd y penderfyniad o ran pa un ai i gadarnhau'r gofyniad i dalu'r costau, neu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwnnw, i Gymwysterau Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 42 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(2)**

**I2** A. 42 mewn grym ar 21.9.2015 gan O.S. 2015/1687, **ergl. 2** (ynghyd ag erglau. 3-12)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Adran 42.